

Cyngor Cymuned Bodedern



Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd
yng Nghanolfan Bro'r Ysgol, Bodedern
Nos Lun, 23 Ionawr 2017 am 7 yr hwyr.

1. Croeso ac ymddiheuriadau.

Presennol:

Mr. Adrian Jones (cadeirydd) **AJ**, Miss Jane Ann Roberts (Is-Gadeirydd) **JAR**, Mr Aled Ifan **AI**, Mrs Linda Jones **LJ**, Dr. Edward Jones **EJ**, Ms Cari Jones **CJ**, Mr Victor Owen **VO**, Mr O G Roberts **OGR**, Mrs Eluned Ann Burgess Thomas **EABT**, Ms Rhian Wyn Owen **clerc**.

Ymddiheuriadau:

Cynghorwr Llinos Medi Huws

2. Datgan Diddordeb. Dim

3. Trafodaeth gyda Neville Evans, Swyddog Ymgysylltu Cymunedol Mon.

Cyflwynodd Neville Evans ei hun ac esboniodd fod ei rôl yn cael ei ariannu mewn cydweithrediad a Menter Môn a Horizon. Dosbarthodd holiaduron gan Medrwn Môn ynghylch cyfleusterau lleol. Trafododd yr aelodau bryderon lleol ynghylch y cynllun parcio a theithio ar gyrion y pentref, gan gynnwys y cynnydd sylweddol mewn traffig. Pwysleisiodd NE pwysigrwydd y bod pobl leol a'r cyngor cymuned yn mynegi eu pryderon i sicrhau bod yr effaith lleiaf niweidiol posibl. Hefyd, oherwydd yr effaith ddisgwyliedig awgrymwyd y gallai Horizon fod yn ffynhonnell o grantiau i wneud gwelliannau i'r pentref. Diolchodd y cadeirydd NE am ei gyfraniad ac amser, a nododd y byddai o fantais i gadw cysylltiad yn y dyfodol.

4. Cofnodion Tachwedd 2016 a unrhyw faterion yn codi o'r cofnodion.

Nodwyd fod pawb wedi derbyn y cofnodion, gydag **AJ** yn cynnig eu bod yn gywir, a gyda **LJ** yn eilio. Nododd y clerc fod prisiau wedi eu derbyn i gael planhigion mewn potiau ogwmpas y pentref. Oherwydd culni'r llawer o'r palmentydd o fewn y pentref, cytunwyd y dylai'r clerc ofyn y dimensiynau y cynwysyddion er mwyn sicrhau y byddent yn ymarferol ac ddim yn achosi perygl.

Cyngor Cymuned Bodedern



5. Maes Chwarae / Ffrindiau Bodedern

Nodwyd fod Ffrindiau Bodedern wedi gwneud cais am grant tuag at offer newydd, ac eu bod yn disgwyl gwybodaeth pellach gan Eglwys Bangor ynglyn a sgim "Chwarae Bler". Nododd y cadeirydd ei bod yn galonogol gweld ymroddiad Ffrindiau Bodedern i'r maes chwarae.

6. Materion Cynllunio.

Cais 13C167B/VAR Dileu Amod Bron y Graig, Bodedern.

Dim gwrthwynebiad.

7. Gohebiaeth.

7.1 Llythur gan Pwyllgor Apel Bodedern yn gofyn caniatad i lunio cais yn enw'r Cyngor Cymuned er budd y pwyllgor apel. Cytunwyd i hyn, gyda'r gobaith efallai y byddai unrhyw fudd ariannol yn gallu bod o fudd i'r Pwyllgor Apel a'r Cyngor Cymuned.

7.2 Llythur gan Mon Grass Cutting gyda dyfnbris i dorri'r fynwent drwy'r flwyddyn. Cytunwyd i'r pris gan ei fod yn parhau i fod yn gystadleuol.

7.3 Dynbris gam Mon CF ynglyn a edrych ar ol y maes chwarae. Cytunwyd i'r dyfnbris gan fod hwm hefyd yn parhau i fod yn gystadleuol.

7.4 Llythur gan CSYM ynglyn a Panel Dewis y pwyllgor Safonnau. Dim enwebiad.

8. Praesept.

Cafodd cyllideb ei baratoi, yn manylu yr incwm a'r gwariant ar gyfer y flwyddyn 2017-18. Mae'r gwariant pendant yn dod i'r swm £6940.00 gydag ystyriaeth pellach ei angen ar gyfer gwariant newydd ar welliannau megis hysbysfwrdd a blodau fydd yn fwy na £500, lwfans ar gyfer gwariant etholiad (£1500 yn cael ei awgrymu gan cyngor CSYM), a threuliau annisgwyl fel difrod, atgyweiriadau a chynnal a chadw yn y maes chwarae a'r fynwent. Cytunwyd fod yna dri opsiwn ar gael wrth osod y praesept. 1. I aros yr un fath 2. Cynyddu o £ 1000 neu 3. Cynyddu £ 2,000. Ar ôl ystyried y symiau sy'n ofynnol ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r awydd i wneud gwelliannau cynigiwyd cynyddu'r praesept i £ 10,000.00. Cafodd hyn ei gynnig, gyda phob aelod yn cytuno, dim gwrthwynebiad.

Cyngor Cymuned Bodedern



9. Eisteddfod.

Adroddwyd fod y pwyllgor nesaf mis Mawrth, a byddai ymweliad gan aelod o'r pwyllgor i drafod y manylion yn fuan.

10. Taliadau i'w gwneud.

Dim.

11. Unrhyw fater arall.

11.1 Adroddodd JAR bod y waliau ar gyrion y pentref yn gwaethygu yn ddyddiol, ac bod pryder ynlyn a diogelwch cerddwyr a gyrrwyr ar hyd y ffordd, yn enwedig wrth gysidro y cynydd yn ddefnyddwyr pan fydd yr Eisteddfod yn yr ardal. Adroddodd y clerc fod y mater wedi ei godi gyda CSYM yn flaenorol ond eu bod o'r farn ei bod yn fater i'r tîrfeddiannwyr. Nodwyd ei fod yn ymddangos fod y tir yn perthyn i dri lle, sef Ty'n Cae, Bodowyr a Llwyn Edeyrn. Cytunwyd i'r clerc gysylltu a UAC am wybodaeth a cymorth pellach am gyfrifoldebau tîrfeddiannwyr.

11.2 Adroddodd EABT fod gwaith agor ffosydd wedi bod yn cael ei gynnal ers cryn dipyn o amser ar Lon tai Uchaf, ac ei fod yn ymddangos fod oedi yn darfnod y gwaith yma oedd yn creu problemau i ddefnyddiwr y lon. Cytunwyd i'r clerc wneud ymholiadau ynglyn a dyddiad byddai'r gwaith yn cael ei gwblhau.

12. Dyddiad cyfarfod nesaf.

Nodwyd fod y cyfarfod nesaf i'w gynnal 27 Chwefror 2017.

Diwedd 8.30 o'r gloch.

Arwyddwyd:

Dyddiad:

Clerc/ Clerk:
Ms. Rhian Wyn Owen,
Aber, 5 Glanllyn, Llanfachraeth,
Ynys Môn, LL65 4UW.

Ffôn dydd / Day tel: (01407) 740 940
Nos /evening: (01407) 749 162
Symudol /mobile: 07802 754 187
cyngorcymunedbodedern@outlook.com